"Oherwydd Mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer."
(**Marc 10:45)**

Dyma'r Arglwydd Iesu yn dangos pwrpas ei ddyfodiad i'r byd. Mae ergyd yr adnod yn y gwrthgyferbyniad rhwng uchder Mab y Dyn a bod yn was oedd yn fodlon rhoi ei fywyd i ryddhau caethweision eraill.

Mab y Dyn

Mae'r teitl yma'n dod o'r Hen Destament ac o Daniel 7:13-14:
"Gwelais un fel mab dyn yn dyfod ar gymylau'r nef; a daeth at yr Hen Ddihenydd a chael ei gyflwyno iddo. Rhoddwyd iddo arglwyddiaeth a gogoniant a brenhiniaeth, i'r holl bobloedd o bob cenedl ac iaith ei wasanaethu. Yr oedd ei arglwyddiaeth yn dragwyddol a digyfnewid, ac ni ddinistrir ei frenhiniaeth."

Dyma weledigaeth nefol a gafodd Daniel. Mae Duw y Tad, 'yr Hen Ddihenydd' yn rhoi teyrnas i Fab y Dyn, sef Crist. Mae ei deyrnas yn rhyfeddol a thragwyddol. Mae'n Frenin gogoneddus ac yn Arglwydd dros yr holl fyd.

Y mae'r Arglwydd Iesu'n defnyddio'r teitl yma yn aml. Yn ei ddyfodiad i'r byd mae wedi dod i gyflwyno a chyhoeddi'r deyrnas. Mae wedi dod i ddangos arwyddion o'r deyrnas yn ei weithredoedd nerthol, ac i agor drws y deyrnas i bechaduriaid trwy farw trosom ar y groes.

Agwedd meistr ac agwedd gwas

Mae'r gwahaniaeth mor amlwg rhwng agwedd Iago ac Ioan, (a gweddill y disgyblion), ac agwedd Mab y Dyn.

Mae eu bryd nhw ar deyrnasu dros eraill – mae Ef â'i fryd ar wasanaethu eraill. Wrth ofyn am gael eistedd gyda'r Arglwydd mewn gogoniant mae'r syniad o fod yn frenhinoedd gyda Iesu yn flaenaf yn eu meddwl. Efallai eu bod yn disgwyl cael y blaen ar y disgyblion eraill hyd yn oed. Yn sicr, maen nhw'n awyddus i'w gwthio'u hunain i'r brig. Mae'r Arglwydd, serch hynny, wedi dod i'w wthio'i hunan i lawr i lefel gwas a chaethwas.

Derbyn anrhydedd yw eu nod hwy – mae Ef yn fodlon marw yn ddianrhydedd. Breuddwyd y brodyr oedd anrhydedd iddyn nhw gan eraill. Breuddwyd am orsedd a choron, mawredd a bri. Yr hyn oedd wedi ei osod ym meddwl y Gwaredwr oedd Ilwybr y Gwas Dioddefus, Ilwybr y groes. Maen nhw'n awyddus i gael awdurdod – mae Ef wedi bwrw ei awdurdod heibio.

Mae'r syniad o gael grym dros eraill yn apelio'n fawr at Feibion y Daran. Mae'r un syniad wedi meddiannu llawer iawn o bobl ein byd trwy'r oesoedd. Daeth Duw y Mab i gael ei arwain fel oen i'r lladdfa, er mwyn tynnu ymaith bechodau'r byd. Maen nhw am arglwyddiaethu dros bobl sydd yn gyfartal â nhw – mae Ef wedi dod i wasanaethu rhai sydd yn is nag Ef.

Pa hawl sydd gan un dyn i feddwl am dra-arglwyddiaethu dros ddyn arall, pan mae'r ddau ar yr un lefel gerbron Duw? Roedd Brenin brenhinoedd yn fodlon hepgor yr hawl absoliwt oedd ganddo, er mwyn gwasanaethu ei greaduriaid oedd yn ddibynnol arno.

Rhaid i ni ofyn am ras i osgoi agwedd Iago ac Ioan, a gofyn i'r Arglwydd ein llenwi â'i agwedd meddwl Ef, trwy nerth yr Ysbryd Glân.

Pridwerth

Yn y byd Groegaidd, roedd pridwerth yn gallu bod yn dâl i ryddhau carcharor rhyfel, neu gaethwas. Yn yr Hen Destament, fe gawn y syniad o dalu pridwerth dros fywyd rhywun, e.e., perchennog ychen oedd wedi lladd person arall. Ym mhob un achos roedd y tâl yn gyfnewid dros berson arall, (ei ryddid neu ei fywyd). Mae'r Arglwydd Iesu'n dangos ei barodrwydd i roi ei fywyd fel tâl i ryddhau llawer oddi wrth eu pechodau. Mae hyn yn dangos ei fod yn marw ar y groes dros eraill, dros bechaduriaid, er mwyn eu rhyddhau o gadwynau pechod.

Fe gyfeiriodd yr Arglwydd Iesu at gaethiwed pechod yn Ioan 8:34: **"Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych fod pob un sy'n cyflawni pechod yn gaethwas i bechod."** Yna mae'n mynd ymlaen i ddweud ei fod ef, y Mab (Mab Duw), wedi dod i'n rhyddhau o'r caethiwed yma. Mae'r apostol Paul yn atgoffa'r Rhufeiniaid eu bod gynt yn **"gaethion i bechod"** (6:17)

Mae Pedr yn dweud bod y Cristion wedi ei brynu'n rhydd o'i fywyd ofer **"â gwaed gwerthfawr Un oedd fel oen di-fai a di-nam, sef Crist"** (1 Pedr 1:19). Mae Paul yn atgoffa'r Corinthiaid eu bod yn eiddo i Grist nawr **"oherwydd prynwyd chwi am bris"** (1 Cor.6:19-20).

Felly, mae'r adnod ryfeddol hon yn dweud cyfrolau wrthym am agwedd ein Gwaredwr, a'i fwriad wrth ddod i'r byd**, sef gwasanaethu a rhyddhau llawer oddi wrth eu pechod trwy farw yn eu lle.**